

Amodau sy'n ymwneud â chaniatâd Adran 96 Trwydded i Blannu

Bydd yr amodau hyn yn cael eu hatodi i'r drwydded neu'r llythyr awdurdod fel telerau

1. Mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded (neu gynrychiolydd personol pan fo deiliad y drwydded wedi marw) indemnio'r awdurdod priffyrdd (a rhoi tystiolaeth o hyn) rhag unrhyw hawliad a wneir gan drydydd parti mewn perthynas ag anaf, difrod neu golled, a allai ddigwydd ar y briffordd, sy'n gysylltiedig â'r drwydded. Gallai hyn godi yn sgil: gwaith plannu coed, llwyni, planhigion neu wair, neu eu presenoldeb; neu pan fo deiliad y drwydded, yr awdurdod priffyrdd, neu eu cynrychiolwyr yn ymgymryd ag unrhyw waith, ac eithrio pan fo'r awdurdod priffyrdd yn esgeulus. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i werth yr indemnïad hwn fod yn £5m o leiaf ar gyfer unrhyw ddigwyddiad. Efallai y bydd yn briodol, yn enwedig o ran y trefniadau effaith cyfyngedig, uchod, i berchnogion a meddianwyr roi tystiolaeth bod eu hyswiriant cartref yn gallu eu hyswirio ar gyfer y math hwn o weithgaredd ar y briffordd gyhoeddus. Cynghorir preswylwyr i gysylltu â'u cwmni yswiriant i gael eglurhad.
2. Bydd trwyddedau neu lythrau awdurdodi ar waith am naill ai pum neu ddeng mlynedd. Fodd bynnag, gall y Cyngor gyflwyno hysbysiad i ddeiliad trwydded yn tynnu'r drwydded yn ôl (a ganiatawyd yn unol ag adran 96 neu 142) (rhown o leiaf saith diwrnod o rybudd). Gall hyn fod am y rhesymau canlynol:
 - a) Os yw deiliad y drwydded yn mynd yn groes i unrhyw un o amodau'r drwydded;
 - b) Pan fo'n ofynnol i'r awdurdod priffyrdd gyflawni ei gyfrifoldebau, fel arfer ar ôl cyfnod sydd heb fod yn llai na thri mis.
3. Mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod priffyrdd, neu gyfleustodau cyhoeddus, gael mynediad at fannau â phlanhigion, sydd dan sylw yn y cytundeb, ar unrhyw adeg. Ni all yr awdurdod priffyrdd na'r cyfleustodau fod yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod a wneir i'r gwaith plannu yn ystod y gwaith, ond cymerir gofal, cyhyd ag y bo modd.
4. Bydd amod yn y drwydded, sy'n nodi pan fydd y drwydded yn dod i ben, yn cael ei thynnu yn ôl neu ei hildio, fod y Cyngor yn:
 - a) Gallu gwaredu unrhyw un neu'r holl goed, llwyni, planhigion neu wair sy'n perthyn i'r drwydded ac adfer y briffordd, a gall adennill ei gostau rhesymol o'r deiliad trwydded diwethaf, neu
 - b) Awdurdodi'r deiliad drwydded diwethaf i gael gwared ar y rhain, ac adfer y briffordd o fewn amser rhesymol a thalu'r costau ei hun.

5. Ni effeithir ar bwerau a dyletswyddau'r awdurdod priffyrdd gan unrhyw geisiadau plannu sy'n cael eu cymeradwyo.
6. Oni bai bod cyfrifoldeb cynnal a chadw wedi cael ei drosglwyddo i'r awdurdod priffyrdd drwy gytundeb, mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded reoli mannau trwyddedig ymylon priffyrdd, neu fannau cymeradwy eraill, i safon resymol, gan sicrhau bod gwaith torri a thocio'n cael ei gyflawni'n rheolaidd. Bydd y drwydded yn cynnwys darpariaeth i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd ein staff priffyrdd lleol yn anelu at archwilio'r mannau hyn o leiaf unwaith y flwyddyn. Gall trwydded gael ei thynnu yn ôl o ganlyniad i un neu ragor o amodau perthnasol yn cael eu diystyru'n barhaus (gweler eitem 2 uchod).
7. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, bydd swyddogion yr awdurdod priffyrdd yn sicrhau bod contractwyr torri gwair yr awdurdod yn cael gwybod am y mannau hyn, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau tymhorol ar dorri. Fodd bynnag, ni allwn roi sicrwydd na fydd y mannau hyn yn cael eu torri'n anfwriadol o bryd i'w gilydd. Yn yr un modd, byddwn yn ceisio osgoi chwistrellu mannau â phlanhigion yn ystod gwaith rheoli chwyn, ond ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am ddamweiniau.
8. Ni ddylai llwyni a choed gael eu plannu yn agosach na 5m o linell ganol y ffordd, ac yn ogystal, fel y bo angen, heb fod yn agosach na 1.5m o ymyl y ffordd. Pan fo llwybrau troed rhwng yr ardaloedd plannu ac ymyl y ffordd, ni ddylai'r gwaith plannu fod yn agosach na 0.5m o ymyl y llwybr troed.
9. Ni fydd ceisiadau yn cael eu cymeradwyo pan fo'r gwaith plannu yn debygol o amharu ar ddraeniau priffyrdd, offer cyfleustodau neu rwystro mynediad i dyllau archwilio, ac ati.
10. Ni fydd ceisiadau yn cael eu cymeradwyo pan fo gwaith plannu yn debygol o amharu ar ymylon ffyrdd gwarchoddedig.
11. Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw llinellau gweld presennol ar y briffordd yn cael eu rhoi mewn perygl. Bydd staff priffyrdd yn sicrhau hyn.
12. Mae cymeradwyaeth yn gyfyngedig i blannu, ac nid yw'n cynnwys unrhyw ffensys cysylltiedig, cerrig, pyst, meini neu hysbysiadau cysylltiedig. Gallai'r rhain gael eu hystyried yn dresmasu ar y briffordd, neu rwystr posibl ar y briffordd, ac yn berygl posibl i ddefnyddwyr y briffordd, ac felly gallai olygu bod trydydd parti yn hawlio yn eich erbyn, yn ogystal ag erlyniad posibl gan y Cyngor. Yn ogystal, ni chaniateir defnyddio planhigion gwrych ar y ffryntiau mewn ffordd sy'n amgáu'r briffordd.
13. Ni fydd yr awdurdod priffyrdd yn derbyn gwaith plannu amhriodol. Bydd unrhyw waith plannu amhriodol yn cael ei waredu, a gellir adennill ein costau.
14. Dylid trafod a chytuno ar y mathau o lwyni a choed y bwriedir eu plannu ar ymyl y briffordd â'r Rheolwr Gwaith Stryd ymlaen llaw.
15. Rhaid i'r holl waith plannu a chynnal a chadw o fewn terfynau priffyrdd gael ei wneud mewn modd diogel gan ddefnyddio'r arwyddion, y goleuadau a'r gardiau priodol, yn unol â chanllawiau Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd ac o dan oruchwyliaeth unigolyn sydd â Charden Goruchwyllydd Gwaith Stryd. Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod yr holl weithwyr a'r cyhoedd yn ddiogel ac nad oes difrod yn cael ei achosi i gyfarpar o dan y ddaear.